

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol):
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost / rhif ffôn:
rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant

- 1. A yw Pennod 1 yn nodi'r ffyrdd y gellir deall ac adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffordd o gam-drin plant yn rhywiol mewn modd clir a defnyddiol?**

Ydy ✓

Nac ydy ☐

Ddim yn siŵr ☐

Mae'r wybodaeth yn ffeithiol, gytbwys, fanwl ac yn arbennig o glir.

- 2. A yw Pennod 2 yn nodi tystiolaeth am ddulliau o rwystro camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn modd clir a defnyddiol?**

Ydy ✓

Nac ydy ☐

Ddim yn siŵr ☐

Yn gyffredinol, ydy, mae'n arbennig o glir.

Fodd bynnag, nid yw ystyr a bwriad paragraff cyntaf y bennod (hynny yw, y pwynt bwled cyntaf yn y blwch testun) yn gwbl glir. Mae'n anodd ei ddilyn ac yn teimlo braidd yn cryptig. Mae'r un testun yn ail-ymddangos yn mharagraff 52. Efallai y gellid ystyried arall-eirio. Yn ogystal, mae angen ail-edrych ar y fersiwn Cymraeg, ble teimlwn bod y frawddeg cyntaf wedi'i seilio ar gamddealltwriaeth o'r bwriad gwreiddiol; o'i gyfieithu yn ôl i'r Saesneg mae 'Nid unig ddiben ataliaeth yw ymyrraeth yn gynnar' yn golygu 'Early intervention is not the only purpose of prevention' sy'n wahanol iawn i 'Prevention is not just about early intervention.'

Ym mharagraff 98, nid yw 'cânt' yn gywir (yn y fersiwn Cymraeg); awgrymwn ddefnyddiol 'caiff' yn ei le.

Mae paragraff 110 yn berthnasol i ysgolion a cholegau addysg bellach, ond mae'r fformat a'r is-deitlau'n rhoi'r argraff ei fod yn berthnasol i golegau addysg bellach yn unig – sy'n golygu y gallai rhywun sy'n darllen o safbwynt ysgol yn benodol ei golli.

Mae'r ddogfen ym ymwneud â phlant a phobl ifanc o fewn y system addysg, gan gynnwys mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Awgrymwn y gallai fod yn ddefnyddiol cael adran sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd yn cael eu haddysgu yn y

cartref; er y gwyddom pa mor sensitif yw'r maes hwnnw, teimlwn ei fod yn hanfodol ymdrin ag e o safbwynt diogelu plant a phobl ifanc.

3. A yw Pennod 3 yn nodi'r gweithdrefnau diogelu ar gyfer plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol mewn modd clir a defnyddiol?

Ydy ✓

Nac ydy ☐

Ddim yn siŵr ☐

Rhowch sylwadau:

4. A yw Pennod 4 yn nodi tystiolaeth am ddulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol mewn modd clir a defnyddiol?

Ydy ✓

Nac ydy ☐

Ddim yn siŵr ☐

Mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol dros ben ac yn glir.

5. A yw Pennod 5 yn gosod y trefniadau ar gyfer tarfu ac erlyn cyflawnwyr sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ar gyfer cefnogi dioddefwyr sy'n blant mewn modd clir a defnyddiol?

Ydy ✓

Nac ydy ☐

Ddim yn siŵr ☐

Rhowch sylwadau:

6. Hoffem wybod eich barn o ran yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Awgrymwn yn gryf y dylid pwysleisio pwysigrwydd cyfrwng iaith unrhyw sgysiaau sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd parodrwydd plentyn neu berson ifanc i drafod ei sefyllfa'n dibynnu i raddau helaeth ar ba mor gyffyrddus ydyn nhw o safbwynt cyfrwng iaith. Dylai bod gofyniad i geisio sicrhau bod modd trafod gydag unrhyw ymarferwyr perthnasol yn y Gymraeg os mai dyna dymuniad y plentyn neu berson ifanc; a rhaid sicrhau bod y cynnig yn un rhagweithiol ac nid yn dibynnu ar wneud cais amdano. Mi ddylai cyfrwng iaith fod yn un o'r materion canolog sy'n cael eu hystyried wrth gynllunio unrhyw ddarpariaeth neu wasanaeth yn y cyd-destun hwn.

7. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon mewn perthynas â'r canllawiau hyn yn effeithio ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a chyfnodau mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych yn credu y bydd

y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?	
Ydw ☐	Nac ydw ☐
8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:	
Nodwch yma:	

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os yw'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw:

☐